
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Harlech
# Morfa Harlech National Nature Reserve

# Min y Don




## Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Morfa Harlech

**Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Harlech yn un o'r systemau twyni tywod pwysicaf yn Mhrydain ac yn un o lond llaw yn unig yng Nghymru sy'n dal i dyfu.**

Gyda'i gilydd, mae Morfa Dyffryn a Morfa Harlech i'r gogledd yn ffurfio ardal barhaus, fwy neu lai, o dwyni tywod ar hyd arfordir gogledd Meirionnydd.

Mae twyni fel y rhain gyda'u hardaloedd tywod noeth yn dod yn gynyddol brin. Maent yn cynnig cartref i blanhigion ac anifeiliaid prin a hynod arbenigol.

## Welcome to Morfa Harlech National Nature Reserve (NNR)

**Morfa Harlech National Nature Reserve is one of the most important actively growing dune systems in Britain and one of only a handful in Wales.**

Together, Morfa Dyffryn and Morfa Harlech to the north form an almost continuous area of sand dunes along the north Meirionnydd coast.

Dunes like these with bare sand areas are becoming increasingly rare. They provide a home for rare and highly specialised plants and animals.

## Beth sydd i'w wneud o'r fan hon?

Dilynwch y llwybr o'r fan hon i'r traeth – mae'r warchodfa yn dechrau ychydig i'r gogledd (trowch i'r dde ar hyd y traeth).

Rydym wedi ffensio rhai rhannau o'r warchodfa i ganiatáu pori neu i ddiogelu planhigion twyni bregus.

## What can you do from here?

Take the path from here to the beach – the reserve starts just to the north (turn right along the beach).

We have fenced off some parts of the reserve to allow grazing or to protect fragile dune plants.



**Penigan y forwyn**
**Maiden pink**



**Tegeirian bera**
**Pyramidal orchid**



**Bwrned chwe smotyn** - Gwyfyn sy'n hedfan yn y dydd (mae'r rhan fwyaf yn hedfan yn y nos)

**Six spot burnet moth** - A day-flying moth (most fly at night)



**Tegeirian y wenynen** - Mae'n dynwared y wenynen i'w denu

**Bee orchid** - Mimics a bumblebee to attract them



**Trilliw'r twyni**
**Dune pansy**



**Britheg y gors**
**Marsh fritillary**




P parcio / parking — toiledau / toilets — teleffon argyfwng / emergency telephone — i'r traeth / to the beach — ffin y warchodfa GNG / NNR reserve boundary


© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Mawrth 2016
© Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – March 2016




## Trysor naturiol cenedlaethol

Mae'r tirlun arfordirol trawiadol hwn yn un o'n trysorau naturiol cyfoethocaf ac yn gartref i ystod eang o blanhigion ac anifeiliaid, a'r cyfan wedi'u haddasu'n benodol i fywyd ar ymyl y môr.

### Twyni tywod yn cefnogi ystod o flodau prin

O faes parcio Min y Don (gweler map), yn y gwanwyn a'r haf cadwch olwg am drilliw'r twyni, tegeirian bera neu hyd yn oed tegeirian y wenynen prin. Neu efallai y byddwch chi'n ddigon ffodus i weld penigan y forwyn.

### Cartref i bryfed prin

Mae'r glaswelltiroedd twyni sych yn gartref i nifer o löynnod byw a gwyfynod, fel y gwyfyn bwrned chwe smotyn a'r glöynnod byw gleision cyffredin a'r coprau bach. Mae pryfed eraill fel rhai o'n gwenyn turio prinnaf, a gwenyn meirch unig yn dibynnu ar dywod noeth.

### Cyfeillion pluog Morfa Harlech

**Mae cwtiaid torchog yn nythu ar y traeth o Fawrth i Orfennaf – ceisiwch beidio a tharfu arnynt!** Mae adar fel yr ehedydd a chlochdar y cerrig yn magu yn y twyni, gyda phibyddion coesgoch a chornchwiglod yn defnyddio'r morfa heli. Yn y gaeaf mae rhydyddion fel pïod y môr, pibyddion y mawn a phibyddion y tywod yn bwydo ar hyd y draethlin, ac mae amrywiaeth o hwyaid gwyllt yn defnyddio'r aberoedd a'r morfa heli.

## A national natural treasure

This impressive coastal landscape is one of our richest natural treasures and home to a diverse range of plants and animals, all especially adapted to life at the edge of the sea.

### Sand dunes support a range of rare flowers

From the Min y Don car park (see map), in spring and summer keep an eye out for the three-coloured dune pansy, the pyramidal orchid or even the scarce bee orchid. Or you may be lucky enough to see a maiden pink.

### A home for scarce insects

When in flower, the dry dune grasslands are home to a number of butterflies and moths, such as the six-spot burnet moth and the common blue and small copper butterflies. Other insects such as some of our rarest mining bees and solitary wasps depend on bare sand.

### Morfa Harlech's feathered friends

**Ringed plover nest on the beach from March – July so please try not to disturb them!** Birds such as the skylark and stonechat breed in the dunes, with redshank and lapwing using the saltmarsh. In winter wading birds such as oystercatcher, dunlin and sanderling feed along the shoreline, and wildfowl make use of the estuaries and saltmarsh.

## ER EICH DIOGELWCH

- **Peidiwch â gwneud tyllau** neu dwneli yn **y twyni tywod** - gall y tywod syrthio arnoch a'ch mygu
- Byddwch yn ofalus o **ffensys sydd wedi eu claddu'n rhannol** yn y twyni - gallant fod yn beryglus
- **Cadwch eich cŵn ar dennyn yn ystod tymor magu adar Mawrth – Gorffennaf**; mae cwtiaid torchog yn nythu ar y traeth ac adar eraill yn y twyni ac ar y morfa heli
- **Peidiwch â chyffwrdd â gweddillion milwrol - fe allant ffrwydro!** Ffoniwch yr Heddlu ar 999 pe baech yn gweld unrhyw beth amheus
- Mae **anifeiliaid** yn pori'r twyni a'r morfa heli – cadwch bellter rhyngddoch chi a hwy

## FOR YOUR SAFETY

- **Do not dig** holes or tunnels **in the sand dunes** - sand can collapse and suffocate you
- Beware of **partially buried fences** in the dunes - they can be dangerous
- **Please keep dogs on leads during the bird breeding season March – July**; ringed plovers nest right on the beach and other birds nest in the dunes and saltmarsh
- **Do not touch any military debris - it may explode!** Report any suspect objects to the Police by calling 999
- **Livestock** graze the dunes and saltmarsh – please keep away from grazing animals




LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DÂL** ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

**CYMRU | WALES PlacesToGo®**

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.

To find other great NRW places to visit in Wales.

**CYMRU | WALES PlaceTales®**

I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.


www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.

Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.


Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government